Trais yn erbyn menywod: Asesiad effaith cydraddoldeb ac amrywiaeth ar y strategaeth a'r cynlluniau gweithredu

Dadansoddi'r dystiolaeth

UNED CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Cyhoeddwyd Ebrill 2008
Argraffwyd Mehefin 2008

Cynnwys

1	Cyflwyniad	2
2	Terminoleg	2
3	Cefndir	2
4	Ystadegau cefndir ar drais yn erbyn menywod	3
5	Data sy'n sail i'r asesiad effaith hwn	4
6	Pwyntiau allweddol wrth ddadansoddi data	16
7	Asesiad cyffredinol o effaith Strategaeth y CPS ar Drais yn erbyn Menywod	17
8	Gweithredu pellach	17

1 Cyflwyniad

1.1 Fe gafodd yr asesiad hwn ei baratoi fel rhan o ymrwymiad y CPS yn ei Gynllun Cydraddoldeb Sengl (SES), gan ymgorffori'r dyletswyddau dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Newidiad) 2000, Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 a Deddf Cydraddoldeb 2006. Dyma'r asesiad effaith cydraddoldeb ac amrywiaeth (EDIA) cyntaf ar gyfer y strategaeth Trais yn erbyn Menywod.

1.2 Bu'r EDIA hwn yn destun ymgynhoriad cyhoeddus am dri mis rhwng Tachwedd 2007 a Ionawr 2008 ac fe'i newidiwyd yn sgil sylwadau a ddaeth i law. Bydd yr EDIA yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r strategaeth derfynol ar Drais yn erbyn Menywod.

1.3 Prif nod yr EDIA hwn yw asesu effaith debygol y strategaeth a chynorthwyo i sefydlu a oes unrhyw anghyfartaledd arwyddocaol o ran rhyw, ethnigrwydd, anabledd, rhywioldeb, crefydd neu gred neu oedran.

1.4 Mae'r asesiad hwn yn seiliedig ar ddata o System Rheoli Achosion y CPS, COMPASS.[1] Roedd yr ymgynghoriad ar yr EDIA yn cynnwys grwpiau ffocws a hwyluswyd yn annibynnol yn ogystal â chyfle i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig.

2 Terminoleg

2.1 Yn y ddogfen hon, dylid cymryd bod pob cyfeiriad at 'ddynion' yn cynnwys 'bechgyn' a bod pob cyfeiriad at 'fenywod' yn cynnwys 'merched'. Defnyddiwyd y termau 'dynion' a 'menywod' er mwyn cynnwys unigolion trawsrywiol, boed nhw wedi cael ailbennu rhywedd yn ffurfiol ai peidio.

3 Cefndir

3.1 Mae Trais yn erbyn Menywod yn drosedd yn erbyn hawliau dynol sy'n atal menywod rhag cymryd rhan lawn mewn bywyd cyhoeddus ac mae'n rhwystr sylweddol rhag cydraddoldeb rhwng dynion a menywod.

3.2 Y mae Trais yn erbyn Menywod yn fater sy'n ymwneud â chydraddoldeb hefyd. Mae'n gyffredin, yn systemig ac wedi'i wreiddio mewn anghydraddoldeb sy'n bod ers tro rhwng dynion a menywod. Hyd nes yr eir i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn, bydd trais yn erbyn menywod yn parhau i rwystro cynnydd cymdeithasol ac economaidd menywod a merched. Fe ddaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i rym ym mis Hydref 2007 ac mae Ymgyrch Rhowch Derfyn ar Drais yn erbyn Menywod wedi argymell bod trais yn erbyn menywod yn flaenoriaeth i'r Comisiwn.[2]

3.3 Mae trais yn erbyn menywod yn effeithio ar fenywod o bob oed, dosbarth economaidd-gymdeithasol, ethnigrwydd, rhywioldeb, crefydd neu gred a gallu. Mae ymchwil yn dangos bod menywod yn wynebu'r risg fwyaf gan ddynion y maent yn eu hadnabod. Gwelir hyn mewn achosion o drais yn y cartref, treisio partneriaid/cyn-bartneriaid a lladdiadau trais yn y cartref. Ar wahân i'r trawma corfforol, emosiynol a seicolegol a ddioddefir gan fenywod sy'n wynebu trais, y mae'n golygu cost sylweddol i gymdeithas yn gyffredinol hefyd.

3.4 Dangosir ymrwymiad y CPS i'r agenda hwn yn y ffaith y cynhwysir trais yn erbyn menywod yn un o chwe blaenoriaeth strategol uchaf y sefydliad. Mae Cynllun Cydraddoldeb Sengl (SES) y CPS yn datgan yn glir y bydd strategaeth a chynlluniau gweithredu ym maes trais yn erbyn menywod yn cael eu paratoi yn ystod blwyddyn gyntaf yr SES.

---

[1] Y cyfnod a gwmpasir gan y data yw Ebrill-Medi 2006.

[2] O'r cychwyn cyntaf: Pam y dylai trais fod yn flaenoriaeth i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Mehefin 2007.

3.5 Nod y *Strategaeth a'r Cynlluniau Gweithredu ym maes Trais yn erbyn Menywod* yw ceisio sicrhau y bydd cydgysylltu a gwell ymateb o ran erlyn ar gyfer amrywiaeth o droseddau sy'n dod dan ambarél trais yn erbyn menywod.

3.6 Yn benodol, bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar:

- trais yn y cartref, gan gynnwys aflonyddu;[3]
- priodas dan orfod;
- yr hyn a elwir yn droseddau anrhydedd;
- llurgunio organau rhywiol merched;
- treisio a throseddau rhywiol;
- y fasnach mewn pobl, gyda ffocws ar fasnachu mewn pobl er mwyn camfanteisio'n rhywiol;
- puteindra, gan gynnwys puteindra plant;
- troseddau yn erbyn pobl hŷn;
- cam-drin plant;
- pornograffi – cyhoeddiadau anllad; ac
- aflonyddu rhywiol yn y gweithle.[4]

3.7 Amcanion penodol y CPS ar gyfer troseddau sy'n ymwneud â Thrais yn erbyn Menywod yw:

- gwella erlyniadau;
- cynyddu hyder y cyhoedd;
- gwella diogelwch, cefnogaeth a bodlonrwydd i ddioddefwyr; a
- mynd i'r afael ag unrhyw anghyfartaledd.

3.8 Bydd y strategaeth hon yn cynorthwyo i gyflwyno'r Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSA) cyffredinol o ddod â rhagor o droseddwyr gerbron eu gwell a chynyddu hyder y cyhoedd, trwy ddarparu fframwaith a chynlluniau gweithredu ategol ar gyfer yr amryfal droseddau a amlinellir uchod.

4 Ystadegau cefndir ar Drais yn erbyn Menywod

4.1 Nid oes trosedd penodol o drais yn erbyn menywod. Mae'r term yn cynnwys troseddau sy'n dod o fewn y diffiniadau o drais yn y cartref, priodas dan orfod, yr hyn a elwir yn droseddau anrhydedd, treisio, ymosodiad rhywiol, llurgunio organau rhywiol merched, cam-drin plant, troseddau yn erbyn pobl hŷn, puteindra, y fasnach mewn pobl, a phornograffi oedolion a phlant.

4.2 Mae'r ffeithiau a'r ffigurau a restrir isod yn dangos mor gyffredin ac eang yw trais yn erbyn menywod:

- mae bron i hanner y menywod sy'n oedolion yng Nghymru a Lloegr wedi cael profiad o drais yn y cartref, ymosodiad rhywiol neu stelcio;[5]
- yng Nghymru a Lloegr, bu gostyngiad yn y gyfradd euogfarnu ar gyfer treisio a hysbyswyd, o un achos mewn tri a hysbyswyd yn 1977 (33 y cant) i un mewn 13 yn 1999[6] (7.5 y cant). Erbyn 2004, dim ond un mewn wyth achos a hysbyswyd (12 y cant) a aeth i dreial ac yn 2004, dim ond 5.3 y cant a arweiniodd at euogfarn;
- mewn tua 85 y cant o'r achosion o briodas dan orfod y bu'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn delio â nhw, menywod yw'r dioddefwyr;[7]

---

[3] Defnyddir aflonyddu yn hytrach na'r term "stelcio" (a ddefnyddir gan EVAW) gan yr ymdrinnir ag achosion troseddol o stelcio dan Ddeddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1997.

[4] Eir i'r afael â phob math o aflonyddu sy'n droseddau fel rhan o drais yn y cartref. Ymdrinnir ag aflonyddu rhywiol yn y gweithle, er nad yw'n drosedd, mewn perthynas â staff y CPS trwy Adnoddau Dynol

[5] Walby, S. ac Allen, J. (2004) *Domestic violence, sexual assault and stalking: Findings from the British Crime Survey*, Llundain: Y Swyddfa Gartref.

[6] Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM (HMCPSI) ac Arolygiaeth Heddluoedd EM (HMIC) (2002) *Joint inspection into the investigation and prosecution of rape offences in England and Wales* Llundain: HMCPSI a HMIC.

[7] Ffigwr a ddyfynnir yn yr ymgynghoriad ar y cyd rhwng y Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad 2005 ar briodas dan orfod, *Forced Marriage: A wrong, not a right*.

- er na chafwyd astudiaeth wedi'i hariannu gan y Llywodraeth o ba mor gyffredin yw achosion o lurgunio organau rhywiol merched (FGM), ar sail allosod data o'r arolwg gweithlu yn 1999, amcangyfrifir bod 74,000 o fenywod yn y Deyrnas Unedig wedi cael eu gorfodi i ddioddef FGM a bod 7,000 o ferched dan 16 oed mewn perygl;[8]
- ar hyn o bryd, dim ond 19 y cant o'r menywod sy'n gweithio fel puteiniaid mewn fflatiau, parlyrau a sawnas yn Llundain sy'n dod o'r Deyrnas Unedig yn wreiddiol;[9]
- mewn arolwg o garcharorion rhwng 16-20 oed gwelwyd bod dwy o bob pump o fenywod yn y carchar a thua un o bob pedwar dyn yn y carchar wedi dioddef trais gartref, tra bo un fenyw o bob tair ac un dyn o bob 20 wedi cael eu cam-drin yn rhywiol;[10]
- trais yn erbyn menywod yw'r achos mwyaf cyffredin o iselder a phroblemau iechyd meddwl ymhlith menywod ac mae'n costio bron i £1.4bn y flwyddyn i'r GIG drin y niweidiau corfforol a'r problemau iechyd meddwl perthynol.[11]

5 Data sy'n sail i'r asesiad effaith hwn

5.1 Fe ddaw'r data a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn o Systemau Rheoli Achosion a Rheoli Tystion y CPS. Y mae data'r CPS ar gael yn unig ar gyfer achosion a nodwyd ac a amlygwyd fel trais yn y cartref, treisio, troseddau rhywiol eraill a cham-drin plant (sy'n cael ei rannu ymhellach yn lladdiadau, troseddau rhywiol, a throseddau corfforol). Ar hyn o bryd, nid yw'r troseddau trais yn erbyn menywod sy'n weddill yn cael eu hamlygu ac felly nid oes modd dadansoddi'r data mewn ffordd debyg. Mae'r holl ddata a ddefnyddir yn yr adrannau hyn yn cynnwys troseddwyr a dioddefwyr sy'n oedolion ac yn bobl ifanc. Mae'r pwyntiau allweddol o'r data yn cael eu crynhoi'n bennaf gan ddefnyddio'r data ar gyfer misoedd Ebrill – Medi 2006.

5.2 Mae'r dadansoddiad yn ôl rhyw ar y System Rheoli Achosion (CMS) yn eithaf cadarn, ond nid yw rhyw y person yn cael ei gofnodi'n dda ar y System Rheoli Tystion (WMS). Yn yr un modd gydag ethnigrwydd, ni chofnodir ethnigrwydd ar o leiaf 12 y cant o'r achosion ar CMS a gwael iawn yw'r cofnodi ar gyfer dioddefwyr ar WMS. Yn sgil hyn, dylid bod yn ofalus wrth lunio casgliadau gyda'r data hwn, ble nad yw rhyw ac ethnigrwydd yn cael eu cofnodi'n llawn.

5.3 Yn ychwanegol, adeg yr asesiad hwn, nid oedd data ar gael ar broffil anabledd na chrefydd/cred dioddefwyr na diffynyddion. Fodd bynnag, bu data ar broffil anabledd a chrefydd/cred dioddefwyr a diffynyddion yn cael ei gasglu er mis Ebrill 2007.

5.4 Nid yw oedran yn cael ei fonitro ar hyn o bryd, er y bydd systemau wedi'u sefydlu o fis Ebrill 2008. Mae'r dasg o fonitro rhywioldeb yn cael ei harchwilio. Unwaith y bydd y systemau hyn wedi'u sefydlu, byddwn yn gallu croesamlygu ar draws yr holl linynnau cydraddoldeb. Bydd hyn yn ein galluogi i archwilio a mynd i'r afael ag unrhyw groestorri rhwng y llinynnau.[12]

5.5 Nid yw'r data CMS a WMS sydd ar gael yn cynnwys digon o fanylion i allu gwneud cymhariaeth briodol rhwng grwpiau pobl Dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r boblogaeth yn gyffredinol. Er enghraifft, mae'r boblogaeth Ddu a lleiafrifoedd ethnig at ei gilydd wedi'i chrynhoi mewn rhai rhannau o'r wlad, gyda dosbarthiad rhyw ac oedran gwahanol i'r boblogaeth o bobl wyn. Mae'r dosbarthiad gwahanol hwn, ynghyd â diffyg gwerthoedd ar gyfer ethnigrwydd, yn golygu na ellir cymryd yr ystadegau ar ethnigrwydd fel tystiolaeth o unrhyw ymddygiad neilltuol ar ran y poblogaethau na'r CPS. Fodd bynnag, y mae'n amlygu'r mater a phwysleisio'r angen am ymchwil pellach.

---

8 FORWARD, a ddyfynnir ym mhapur Ymchwil Tŷ'r Cyffredin 03/24 Mawrth 2003.
9 Prosect POPPY (2004) *Sex in the City: Mapping Commercial Sex Across London, London: POPPY Project*.
10 Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, 1997.
11 Gwefan yr Adran Iechyd.
12 Rhyngweithio rhyw person â hunaniaeth arall, gan arwain at brofiad sylweddol bendant o drais i fenywod unigol (Symington, A (2004) *Intersectionality: A Tool for Gender and Economic Justice)*.

5.6 Mae crynodeb o'r data o CMS a WMS ar gyfer Ebrill – Medi 2006 yn dangos y canlynol:

Tabl 1: Crynodeb o ddata am ddiffynyddion a dioddefwyr (yn ôl rhyw) ar gyfer y cyfnod Ebrill-Medi 2006.

	Trais yn y Cartref	Treisio	Troseddau Rhywiol	Cam-drin plant – troseddau rhywiol	Cam-drin plant – troseddau corfforol	Cam-drin plant – lladdiadau [13]
Diffynydd-ion sy'n ddynion	95%	99%	96%	98%	76%	80%
Dioddef-wyr sy'n fenywod[14]	86% (roedd cipolwg Rhagfyr 2006 yn dangos 89%)	89%	Ddim ar gael	67% o bob achos a amlygir fel dioddefwyr cam-drin plant		

5.7 ***Dadansoddi'r data yn ôl rhyw ac ethnigrwydd***

5.8 **Data am drais yn y cartref**

5.8.1 Dyma oedd y data am ddiffynyddion ar gyfer Ebrill – Medi 2006 yn ei ddangos:

- dynion oedd 95 y cant o ddiffynyddion trais yn y cartref;
- roedd canlyniadau achosion, yn ôl rhyw, yn debyg mewn perthynas â chanlyniadau llwyddiannus ac aflwyddiannus – h.y. 63.5 y cant o fenywod a gafodd eu herlyn a 64.3 y cant o ddynion a gafodd eu herlyn, yn arwain at ganlyniad llwyddiannus. Yr oedd ychydig bach yn fwy o ddynion a blediodd yn euog yn gyfrannol (58.2 y cant o ddynion o gymharu â 51.3 y cant o fenywod);
- yn ôl y data am laddiadau roedd 76 diffynnydd yn ystod Ebrill – Medi 2006-07 ac o'u plith roedd 87 y cant yn ddynion;[15]
- cafwyd 102 trosedd o lofruddiaeth a phum trosedd dynladdiad dros yr un cyfnod;
- cofnodwyd 2,740 trosedd aflonyddu;[16] a dangosai cipolwg Rhagfyr 2006 hefyd mai dynion oedd 94 y cant o'r diffynyddion.

5.8.2 Dangosai'r dadansoddiad yn ôl rhyw y dioddefwyr rhwng Ebrill a Medi 2006 mai dim ond mewn 33 y cant o achosion y cofnodwyd rhyw y person;[17] o blith y rheiny roedd 86 y cant o'r dioddefwyr yn fenywod. Dangosai cipolwg Rhagfyr mai menywod oedd 89 y cant o'r dioddefwyr.

[13] Mae lladdiadau CMS yn cynnwys llofruddiaeth, dynladdiad a bygwth lladd.

[14] Gellir casglu data am ddioddefwyr ar y System Rheoli Achosion (CMS) COMPASS neu ar y System Rheoli Tystion (WMS). Ar hyn o bryd mae lefel y cofnodi yn isel. Cesglir gwybodaeth ar gyfer WMS yn bennaf o achosion ble nodwyd ple dieuog a ble mai'r Swyddog Gofal Tystion yw'r unig bwynt cyswllt ar gyfer y dioddefwr, felly mae yna beth data am drais yn y cartref na fydd yn cael ei gasglu. Mae'r tîm trais yn y cartref yn gweithio gyda'r Uned Rhoi Gofal i Ddioddefwyr a Thystion i fynd i'r afael â hyn a datblygu systemau a fydd o gymorth i wella casglu data ac ansawdd y data.

[15] Mae data am laddiadau yn y CPS yn cynnwys llofruddiaethau, ymgais i lofruddio, bygwth neu gynllwynio i lofruddio, dynladdiad ac achosi marwolaeth trwy ddwysgipio moduron.

[16] Cofnodir achosion Deddf Gwarchod rhag Aflonyddu fel troseddau yn hytrach nag yn ôl diffynyddion felly nid oes modd dadansoddi yn ôl rhyw.

[17] Gweler troednodyn 14.

5.8.3 Roedd y dadansoddiad o ethnigrwydd dioddefwyr ar gyfer Ebrill – Medi 2006 yn dangos y canlynol:

Tabl 2: Dadansoddi ethnigrwydd diffynyddion

Ethnigrwydd	% o bob arestiad 2004- 05 a gyhuddwyd (data y Swyddfa Gartref)	% o gyfanswm y diffynyddion a gyhuddwyd yn 2006-07	% o gyfanswm y diffynyddion a erlynwyd yn Ebrill –Medi 2006 (achosion a gwblhawyd)	% o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr
Asiaidd	4.9%	5.4%	5.3%	4.6%
Du	8.8%	6.3%	6.5%	2.3%
Tarddiad Ethnig Cymysg	n/a	1.7%	1.7%	1.3%
Gwyn i Gyd	84.3%	86.6%	85.9%	90.9%
Prydeinig Gwyn	n/a	n/a	82.7%	87%

n/a = ddim ar gael

5.8.4 Cyhuddwyd canran lai o bobl Dduon dan amheuaeth (6.3 y cant) yn 2006-07 gyda'u herlyniad yn cael ei gwblhau (6.5 y cant) yn Ebrill – Medi 2006, nag a arestiwyd (8.8 y cant) ar gyfer pob trosedd.[18] Cyhuddwyd canran uwch o bobl Wyn dan amheuaeth (86.6 y cant) gyda'u hachosion yn cael eu cwblhau (85.9 y cant) yn Ebrill – Medi 2006 nag a arestiwyd (84.3 y cant).

5.8.5 Fodd bynnag, cafodd llai o ddiffynyddion Gwyn (84.3 y cant) eu harestio, eu cyhuddo (86.6 y cant) a chwblhau achosion (85.9 y cant) ym mis Ebrill – Mawrth 2006 nag yn unol â'r boblogaeth yn gyffredinol (90.9 y cant). Cafodd mwy o ddiffynyddion Duon eu harestio (8.8 y cant) na'u cyhuddo (6.3 y cant) a chwblhau achosion (6.5 y cant) yn Ebrill – Medi 2006; ond yn gyffredinol roedd y cyfrannau'n uwch o gymharu â'r 2.3 y cant o bobl Dduon yn y boblogaeth. Yn yr un modd, fe gafodd ychydig bach yn fwy o ddiffynyddion Asiaidd ac o Darddiad Ethnig Cymysg eu harestio,[19] eu cyhuddo a'u herlyn o gymharu â'r boblogaeth.

5.8.6 Mae'r canlyniadau dros dro o ddadansoddiad ar wahân o bobl a amheuir o gyflawni trais yn y cartref ar gyfer 2006-2007 i gyd yn dangos canlyniadau'r broses gyhuddo yn ôl ethnigrwydd. (gweler Tabl 3 gyferbyn)

5.8.7 O blith yr holl bobl Wyn dan amheuaeth o drais yn y cartref yr anfonwyd eu hachosion at y CPS, cyhuddwyd 59.6 y cant, ni chafodd 21.5 y cant eu herlyn ar sail y dystiolaeth, a chafodd 10.5 y cant gasgliad 'arall'.[20] O blith yr holl bobl Dduon dan amheuaeth, cyhuddwyd 57.5 y cant, ni chafodd 23 y cant eu herlyn ar sail y dystiolaeth a chafodd 12 y cant gasgliad 'arall'. O blith yr holl bobl Asiaidd dan amheuaeth, cyhuddwyd 55 y cant, ni chafodd 27 y cant eu herlyn ar sail y dystiolaeth a chafodd 9 y cant gasgliad 'arall'. Fodd bynnag, yr oedd canran uwch o ganlyniadau llwyddiannus gyda diffynyddion Gwyn (66.5 y cant) nag ar gyfer diffynyddion Duon (48.7 y cant) a diffynyddion Asiaidd (50.5 y cant) (gweler Tabl 5 gyferbyn).

[18] Cydnabyddir bod data diweddaraf y Swyddfa Gartref yn dod o 2004-5.
[19] Nid oes data ar gael gan y Swyddfa Gartref 2004-5 ar arestio pobl dan amheuaeth sy'n dod o gymunedau ethnigrwydd cymysg.
[20] Canlyniad 'arall' y broses gyhuddo yw achosion ble nad oedd canlyniad y broses wedi'i diffinio na'i chofnodi, yn ogystal ag achosion sy'n disgyn i'r categori gweddillol.

Tabl 3: Canlyniadau cyhuddo ar gyfer trais yn y cartref yn ôl ethnigrwydd, Ebrill 2006-Mawrth 2007.

	Cyhuddo	Cwblhawyd trwy benderfyniad	Achosion anghyflawn	Nifer Erlyn-iadau (tystiolaeth)	Nifer Erlyn-iadau (budd y cyhoedd)	Arall	Cwblhau gwaith gwein-ydd-ol	Nifer Achos-ion
Asiaidd	55.3%	2.3%	1.9%	27.4%	1.9%	9.4%	1.9%	3,151
Du	57.5%	2.0%	1.9%	23.0%	1.5%	12.0%	2.1%	3,672
Cymysg	61.4%	2.6%	2.1%	18.7%	1.8%	10.7%	2.6%	977
Heb ei Ddarparu	21.3%	6.6%	1.0%	56.8%	5.2%	5.4%	3.7%	5,609
Heb ei Ddatgan	44.8%	3.8%	1.6%	30.3%	2.2%	12.1%	5.3%	2,567
Arall	57.7%	2.6%	1.0%	25.2%	0.5%	11.0%	1.8%	381
Gwyn	59.6%	2.9%	1.6%	21.5%	1.8%	10.5%	2.1%	50,234

5.8.8 Trwy gymharu rhyw y diffynyddion yn ôl ethnigrwydd mewn achosion trais yn y cartref gwelwyd mai dynion oedd amlycaf ar draws pob ethnigrwydd:

Tabl 4: Dadansoddi rhyw ac ethnigrwydd diffynyddion mewn achosion trais yn y cartref, yn y cyfnod Ebrill-Medi 2006.

Ethnigrwydd	Dynion	Menywod
Asiaidd	97.9%	2.1% (29 diffynnydd)
Du	97.2%	2.8% (48 diffynnydd)
Tarddiad Ethnig Cymysg	93.0%	7% (29 diffynnydd)
Gwyn i Gyd	94.6%	5.4% (1220 diffynnydd)
Prydeinig Gwyn	94.5%	5.5% (1194 diffynnydd)

5.8.9 Roedd canlyniadau yn ôl rhyw ac ethnigrwydd diffynyddion mewn achosion trais yn y cartref yn dangos bod canlyniadau llwyddiannus ar gyfer dynion Duon ac o leiafrifoedd ethnig yn is o gymharu â dynion Gwyn:

Tabl 5: Canlyniadau llwyddiannus mewn achosion trais yn y cartref, yn ôl rhyw ac ethnigrwydd, ar gyfer y cyfnod Ebrill-Medi 2006.

Ethnigrwydd	Dynion	Menywod
Asiaidd	50.5%	44.8% (dim ond 29 diffynnydd)
Du	48.7%	52%
Tarddiad Ethnig Cymysg	59.9% (rhifau isel)	82.8% (dim ond 29)
Gwyn i Gyd	66.5%	64.7%
Prydeinig Gwyn	66.9%	64.8%

5.8.10 Dadansoddwyd ethnigrwydd dioddefwyr DV ar gyfer dioddefwyr mewn achosion o drais yn y cartref,[21] ond gan mai mewn 16 y cant o achosion yn unig y cofnodwyd ethnigrwydd, nid oes modd llunio casgliadau gan ddefnyddio'r canlyniadau hyn. O blith y rhai lle cofnodwyd ethnigrwydd, ychydig iawn o wahaniaeth oedd rhwng y canlyniadau a'r boblogaeth yn gyffredinol.

Tabl 6: Dadansoddi ethnigrwydd dioddefwyr trais yn y cartref ar gyfer y cyfnod Ebrill-Medi 2006.

Ethnigrwydd	% o gyfanswm dioddefwyr	% o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr
Asiaidd	4.5%	4.6%
Du	1.4%	2.3%
Tarddiad Ethnig Cymysg	1.2%	1.3%
Gwyn i Gyd	92.7%	90.9%
Prydeinig Gwyn	92.2%	87%

5.9 Data am dreisio a throseddau rhywiol

5.9.1 Mae dadansoddiad rhyw diffynyddion am dreisio ac ymosod rhywiol ar gyfer Ebrill – Medi 2006 yn dangos mai dynion oedd yn gyfrifol am 99 y cant o achosion treisio a 96 y cant o droseddau rhywiol.

5.9.2 Roedd canlyniadau achosion yn ôl rhyw yn wahanol mewn perthynas â chanlyniadau llwyddiannus ac aflwyddiannus ar gyfer achosion o dreisio a throseddau rhywiol:

- ar gyfer treisio – erlyniwyd 62.5 y cant o fenywod a 53.4 y cant o ddynion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, sampl fach o ddiffynyddion oedd yn fenywod (16 o gymharu â 685 dyn);
- ar gyfer troseddau rhywiol – erlyniwyd 79.1 y cant o fenywod a 66.6 y cant o ddynion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, cyfran fach iawn o ddiffynyddion oedd yn fenywod unwaith eto (129 o gymharu â 2696 dyn);
- terfynwyd ychydig yn fwy o achosion yn ymwneud â menywod fel diffynyddion mewn achosion treisio (37.5 y cant o fenywod gyda 25 y cant yn cynnig dim tystiolaeth o gymharu â 23.9 y cant o achosion yn ymwneud â dynion fel diffynyddion gydag 14.2 y cant yn cynnig dim tystiolaeth);
- mae rhagor o fenywod yn pledio'n euog na dynion mewn achosion troseddau rhywiol (73 y cant o 163 menyw o gymharu â 51 y cant o 4049 dyn);
- cafwyd rhagor o ddynion yn euog na menywod mewn achosion troseddau rhywiol (15.3 y cant o 4049 dyn o gymharu â 4.9 y cant o 163 menyw);
- ni chafwyd rhyddfarnau gan farnwr na rheithgor ar gyfer achosion o dreisio gyda menywod yn ddiffynyddion, ond bu rhyddfarnau o 2.2 y cant gan farnwr ac 19.1 y cant gan reithgor ar gyfer achosion yn ymwneud â dynion fel diffynyddion;
- ni chafwyd rhyddfarnau dan gyfarwyddyd barnwr a dim ond pum rhyddfarniad gan reithgor mewn achosion troseddau rhywiol gyda menywod fel diffynyddion, ond 1.1 y cant o ryddfarnau gan farnwr ac 11.1 y cant gan reithgor pan oedd y diffynyddion yn ddynion.

5.9.3 Ni chofnodwyd ethnigrwydd mewn 12 y cant o achosion.

[21] Gellir casglu data am ddioddefwyr ar y System Rheoli Achosion (CMS) COMPASS neu ar y System Rheoli Tystion (WMS). Ar hyn o bryd mae lefel y cofnodi yn isel. Cesglir gwybodaeth ar gyfer WMS yn bennaf o achosion ble nodwyd ple dieuog a ble mai'r Swyddog Gofal Tystion yw'r unig bwynt cyswllt ar gyfer y dioddefwr, felly mae yna beth data am drais yn y cartref na fydd yn cael ei gasglu. Mae'r tîm trais yn y cartref yn gweithio gyda'r Uned Rhoi Gofal i Ddioddefwyr a Thystion i fynd i'r afael â hyn a datblygu systemau a fydd o gymorth i wella casglu data ac ansawdd y data.

5.10 *Data am dreisio*

5.10.1 Mae dadansoddiad rhyw dioddefwyr treisio ar gyfer Ebrill – Medi 2006 yn dangos mai dim ond mewn 31 y cant o achosion y cofnodwyd rhyw y person.[22] O blith y rhai lle cofnodwyd rhyw, roedd 89 y cant o ddioddefwyr yn fenywod.

5.10.2 Dyma ddadansoddiad o ryw ac ethnigrwydd diffynyddion treisio ar gyfer Ebrill – Medi 2006:

Tabl 7: Dadansoddi ethnigrwydd diffynyddion treisio ar gyfer y cyfnod Ebrill-Medi 2006

Ethnigrwydd	% o gyfanswm y diffynyddion	% o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr
Asiaidd	6.5%	4.6%
Du	14.4%	2.3%
Tarddiad Ethnig Cymysg	2.6%	1.3%
Gwyn i Gyd	74.7%	90.9%
Prydeinig Gwyn	69.7%	87%

5.10.3 I grynhoi, yr oedd llai o ddiffynyddion gwyn (74.7 y cant) nag yn y boblogaeth yn gyffredinol yng Nghymru a Lloegr (90.9 y cant) gyda chyfran uwch o ganlyniadau llwyddiannus (57.8 y cant) nag ar gyfer ethnigrwydd arall (38.2 y cant - 44.7 y cant).

5.10.4 Erlyniwyd rhagor o ddiffynyddion Duon (14.4 y cant) nag yn y boblogaeth yn gyffredinol (2.3 y cant) ond gyda chanlyniadau llwyddiannus is (43.1 y cant).

5.10.5 Trwy gymharu rhyw diffynyddion yn ôl ethnigrwydd mewn achosion treisio gwelwyd y canlynol:

Tabl 8: Dadansoddi rhyw ac ethnigrwydd diffynyddion treisio ar gyfer y cyfnod Ebrill-Medi 2006

Ethnigrwydd	Dynion	Menywod
Asiaidd	98.8%	1 diffynnydd
Du	100%	0
Tarddiad Ethnig Cymysg	100%	0
Gwyn i Gyd	99.2%	12 diffynnydd
Prydeinig Gwyn	98.8%	11 diffynnydd

[22] Gellir casglu data am ddioddefwyr ar y System Rheoli Achosion (CMS) COMPASS neu ar y System Rheoli Tystion (WMS). Ar hyn o bryd mae lefel y cofnodi yn isel. Cesglir gwybodaeth ar gyfer WMS yn bennaf o achosion ble nodwyd ple dieuog a ble mai'r Swyddog Gofal Tystion yw'r unig bwynt cyswllt ar gyfer y dioddefwr, felly mae yna beth data am drais yn y cartref na fydd yn cael ei gasglu. Mae'r tîm trais yn y cartref yn gweithio gyda'r Uned Rhoi Gofal i Ddioddefwyr a Thystion i fynd i'r afael â hyn a datblygu systemau a fydd o gymorth i wella casglu data ac ansawdd y data.

5.10.6 Ar gyfer pob ethnigrwydd, roedd dros 98 y cant o ddiffynyddion yn ddynion. Mae'r ffigurau ar gyfer diffynyddion sy'n fenywod yn rhy fach i lunio unrhyw gasgliad.

5.10.7 Roedd canlyniadau llwyddiannus yn ôl rhyw ac ethnigrwydd mewn achosion treisio fel a ganlyn:

Tabl 9: Canlyniadau llwyddiannus yn ôl rhyw ac ethnigrwydd mewn achosion treisio ar gyfer y cyfnod Ebrill-Medi 2006

Ethnigrwydd	Dynion	Menywod
Asiaidd	44.7%	100% (dim ond 1 diffynnydd)
Du	43.1%	Amherthnasol
Tarddiad Ethnig Cymysg	38.2% (niferoedd isel iawn)	Amherthnasol
Gwyn i Gyd	57.8%	58.3% (niferoedd isel iawn)
Prydeinig Gwyn	58.6%	54.5% (niferoedd isel iawn)

5.10.8 Mae'r canlyniadau llwyddiannus ar gyfer diffynyddion Du, Asiaidd ac ethnigrwydd cymysg yn is nag ar gyfer diffynyddion Gwyn.

5.10.9 Dadansoddwyd data o Ebrill – Medi 2006 ar gyfer ethnigrwydd dioddefwyr mewn achosion treisio.[23] Dim ond saith y cant o achosion oedd wedi cofnodi ethnigrwydd. O blith y 27 achos a gofnododd ethnigrwydd, roedd 26 yn ddioddefwyr Gwyn ac un yn Ddu.

5.11 *Data am droseddau rhywiol*

5.11.1 Roedd dadansoddiad o ryw ac ethnigrwydd diffynyddion ar gyfer troseddau rhywiol ar gyfer Ebrill – Medi 2006 yn dangos y canlynol:

Tabl 10: Dadansoddi ethnigrwydd diffynyddion mewn achosion troseddau rhywiol ar gyfer y cyfnod Ebrill-Medi 2006

Ethnigrwydd	% o gyfanswm y diffynyddion	% o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr
Asiaidd	7.4%	4.6%
Du	7.03%	2.3%
Tarddiad Ethnig Cymysg	2.1%	1.3%
Gwyn i Gyd	81.7%	90.9%
Prydeinig Gwyn	76.9%	87%

[23] Gellir casglu data am ddioddefwyr ar y System Rheoli Achosion (CMS) COMPASS neu ar y System Rheoli Tystion (WMS). Ar hyn o bryd mae lefel y cofnodi yn isel. Cesglir gwybodaeth ar gyfer WMS yn bennaf o achosion ble nodwyd ple dieuog a ble mai'r Swyddog Gofal Tystion yw'r unig bwynt cyswllt ar gyfer y dioddefwr, felly mae yna beth data am drais yn y cartref na fydd yn cael ei gasglu. Mae'r tîm trais yn y cartref yn gweithio gyda'r Uned Rhoi Gofal i Ddioddefwyr a Thystion i fynd i'r afael â hyn a datblygu systemau a fydd o gymorth i wella casglu data ac ansawdd y data.

5.11.2 Yr oedd llai o ddiffynyddion Gwyn (81.7 y cant) nag yn y boblogaeth yn gyffredinol yng Nghymru a Lloegr (90.9 y cant) gyda chyfran uwch o ganlyniadau llwyddiannus (68.6 y cant) nag ar gyfer ethnigrwydd arall (56.5 y cant-61.8 y cant).

5.11.3 Erlyniwyd rhagor o ddiffynyddion Duon ac Asiaidd (saith y cant a 7.4 y cant yn y drefn honno) nag yn y boblogaeth yn gyffredinol (2.3 y cant a 4.6 y cant yn y drefn honno) ond gyda chanlyniadau llwyddiannus is (58.5 y cant a 56.5 y cant).

5.11.4 Byddai angen dadansoddiad pellach i ganiatáu ar gyfer gwahanol ddosbarthiadau oedran y boblogaeth, ac nid yw hynny'n bosib ar hyn o bryd.

5.11.5 Trwy gymharu rhyw diffynyddion yn ôl ethnigrwydd mewn achosion troseddau rhywiol fe welir y canlynol, ond mae'r ffigurau yn rhy fach ar gyfer poblogaethau Du a lleiafrifoedd ethnig i allu dod i unrhyw gasgliad ystyrlon:

Tabl 11: Dadansoddi rhyw ac ethnigrwydd diffynyddion mewn achosion troseddau rhywiol ar gyfer y cyfnod Ebrill-Medi 2006.

Ethnigrwydd	Dynion	Menywod
Asiaidd	97.5%	7 diffynnydd
Du	97%	8 diffynnydd
Tarddiad Ethnig Cymysg	88%	9 diffynnydd
Gwyn i Gyd	96%	122 diffynnydd
Prydeinig Gwyn	96%	114 diffynnydd

5.11.6 Disgrifir canlyniadau llwyddiannus yn ôl rhyw ac ethnigrwydd mewn achosion troseddau rhywiol yn y tabl isod. Mae nifer y menywod, yn enwedig diffynyddion Duon a lleiafrifoedd ethnig yn rhy isel i allu dod i unrhyw gasgliad ystyrlon. Mewn perthynas â dynion, mae canlyniadau llwyddiannus ar gyfer diffynyddion Du a lleiafrifoedd ethnig yn is nag ar gyfer diffynyddion Gwyn:

Tabl 12: Canlyniadau llwyddiannus yn ôl rhyw ac ethnigrwydd mewn achosion troseddau rhywiol ar gyfer y cyfnod Ebrill-Medi 2006

Ethnigrwydd	Dynion	Menywod
Asiaidd	56.5%	85.7% (niferoedd isel iawn)
Du	58.5%	37.5% (niferoedd isel iawn)
Tarddiad Ethnig Cymysg	61.8% (niferoedd isel iawn)	89% (niferoedd isel iawn)
Gwyn i Gyd	68.6%	80.3%
Prydeinig Gwyn	69%	81.5%

5.12 Data am gam-drin plant

5.12.1 Mae dadansoddiad rhyw diffynyddion ar gyfer cam-drin plant (troseddau rhywiol) ar gyfer Ebrill – Medi 2006 yn dangos y canlynol:

- dynion a gyflawnodd 98 y cant o achosion troseddau rhywiol yn erbyn plant – roedd nifer yr achosion yn ymwneud â menywod fel troseddwyr yn isel dros ben;
- cafodd rhagor o achosion yn ymwneud â menywod fel diffynyddion eu herlyn yn llwyddiannus (73 y cant) o gymharu â dynion (68 y cant). Mae hyn yn adlewyrchu'r nifer isel iawn o achosion yn ymwneud â menywod (38 o gymharu â 1279 ar gyfer gwrywod) yn ogystal â'r tueddiad uwch ymhlith menywod i bledio'n euog (61 y cant o gymharu â 49 y cant ar gyfer dynion);
- terfynwyd rhagor o achosion ble'r oedd y diffynyddion yn fenywod (wyth allan o 38; 21 y cant) o gymharu â dynion (229 allan o 1869; 12 y cant); ac
- yn gyfatebol, cafwyd ychydig bach yn fwy o ddynion yn euog (19 y cant o gymharu â 13 y cant).

5.12.2 Roedd nifer yr achosion o laddiadau (gan gynnwys dynladdiad a bygythiadau) yn fach iawn. Dynion oedd 80 y cant o'r diffynyddion. Erlynwyd achosion yn llwyddiannus mewn saith o bob wyth achos ble'r oedd y diffynyddion yn ddynion ac yn y ddau achos ble'r oedd y diffynyddion yn fenywod. Plediodd pedwar o'r saith dyn yn euog ac un o'r menywod. Dynion oedd yn gyfrifol am 76 y cant o achosion troseddau corfforol. Roedd canlyniadau yn ôl rhyw yn debyg ar gyfer canlyniadau llwyddiannus, achosion a derfynwyd a'r rhai a blediodd yn euog/a gafwyd yn euog.

5.12.3 Crynodeb o faterion rhyw yn codi mewn achosion cam-drin plant:

- dynion oedd mwyafrif y diffynyddion mewn achosion cam-drin plant;
- y mae cyfran uwch o gam-drin rhywiol gan ddynion na throseddau corfforol (98 y cant o gymharu â 75.9 y cant); ac
- mae canlyniad achosion yn ôl rhyw yn debyg mewn troseddau corfforol a lladdiadau ond mae'n wahanol mewn perthynas â cham-drin rhywiol – gyda nifer gyfatebol yn rhagor o achosion yn ymwneud â menywod yn cael eu terfynu a rhagor o fenywod yn pledio'n euog. Mewn cyferbyniad, roedd rhagor o achosion yn ymwneud â dynion yn arwain at euogfarn. Fodd bynnag, mae niferoedd yr achosion ble mae'r diffynyddion yn fenywod yn isel iawn ac ni ellir dod i unrhyw gasgliadau ystyrlon gyda'r ffigurau hyn.

5.12.4 Roedd y dadansoddiad ar gyfer dioddefwyr cam-drin plant ar gyfer Ebrill – Medi 2006 yn dangos mai dim ond mewn 31 y cant o achosion y cofnodwyd rhyw y person ac, o blith y rhain, roedd 67 y cant yn ferched.[24]

5.12.5 Roedd y dadansoddiad o ryw ac ethnigrwydd diffynyddion am gam-drin plant ar gyfer Ebrill – Medi 2006 yn dangos bod ychydig bach yn fwy o droseddau rhywiol wedi'u cyflawni gan ddiffynyddion Gwyn nag yn y boblogaeth yn gyfatebol ac ychydig yn llai o droseddau corfforol. Roedd niferoedd y lladdiadau yn rhy isel i gynnig sylwadau.

[24] Gellir casglu data am ddioddefwyr ar y System Rheoli Achosion (CMS) COMPASS neu ar y System Rheoli Tystion (WMS). Ar hyn o bryd mae lefel y cofnodi yn isel. Cesglir gwybodaeth ar gyfer WMS yn bennaf o achosion ble nodwyd ple dieuog a ble mai'r Swyddog Gofal Tystion yw'r unig bwynt cyswllt ar gyfer y dioddefwr, felly mae yna beth data am drais yn y cartref na fydd yn cael ei gasglu. Mae'r tîm trais yn y cartref yn gweithio gyda'r Uned Rhoi Gofal i Ddioddefwyr a Thystion i fynd i'r afael â hyn a datblygu systemau a fydd o gymorth i wella casglu data ac ansawdd y data.

Tabl 13: Dadansoddi ethnigrwydd diffynyddion mewn achosion cam-drin plant ar gyfer y cyfnod Ebrill-Medi 2006

Ethnigrwydd	% o gyfanswm y diffynyddion - troseddau rhywiol	% o gyfanswm y diffynyddion - lladdiadau	% o gyfanswm y diffynyddion - troseddau corfforol	% o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr
Asiaidd	3.3%	1	5.3%	4.6%
Du	2.6%	1	4.2%	2.3%
Tarddiad Ethnig Cymysg	1.1%	2	1.7%	1.3%
Gwyn i Gyd	92.6%	6	87.7%	90.9%
Prydeinig Gwyn	89.5%	6	85.9%	87%

5.12.6 Ni chofnodwyd ethnigrwydd ymhlith naw y cant o ddiffynyddion.

5.12.7 Roedd dadansoddiad o ddiffynyddion yn ôl rhyw ac ethnigrwydd mewn achosion cam-drin plant yn dangos bod mwyafrif y troseddau wedi'u cyflawni gan ddynion, ni waeth beth fo'u hethnigrwydd.

Tabl 14: Dadansoddi ethnigrwydd a rhyw diffynyddion mewn achosion cam-drin plant ar gyfer y cyfnod Ebrill-Medi 2006

Ethnigrwydd	Troseddau rhywiol (Dynion)	Troseddau rhywiol (Menywod)	Troseddau corfforol (Dynion)	Troseddau corfforol (Menywod)	Diff. Lladdiad (Dynion)	Diff. Lladdiad (Menywod)
Asiaidd	100%	0	85.2%	8 diff	1	0
Du	97.7%	1 diff	74.4%	11 diff	0	1
Tarddiad Ethnig Cymysg	100%	0	70.6%	5 diff	1	1
Gwyn i Gyd	98.1%	1.9% (30 diff)	75.5%	24.5%	6	0
Prydeinig Gwyn	98.2%	1.8% (28 diff)	75.4%	24.6%	6	0

5.12.8 Mae data ar y canlyniadau llwyddiannus yn ôl rhyw ac ethnigrwydd mewn achosion cam-drin plant yn dangos, ar gyfer achosion yn ymwneud â menywod fel diffynyddion, ac yn arbennig y rhai o hil gymysg, fod y niferoedd yn rhy isel i ddod i unrhyw gasgliadau. Y mae'n dangos hefyd ar gyfer lladdiadau fod y niferoedd yn rhy isel i ddod i gasgliadau. Ar gyfer achosion o droseddau rhywiol a throseddau corfforol yn ymwneud â dynion fel diffynyddion, roedd canlyniadau llwyddiannus ar gyfer diffynyddion Du ac Asiaidd yn is nag ar gyfer dynion Gwyn mewn troseddau rhywiol a throseddau corfforol.

Tabl 15: Canlyniadau llwyddiannus yn ôl rhyw ac ethnigrwydd ar gyfer diffynyddion mewn achosion cam-drin ar gyfer y cyfnod Ebrill-Medi 2006

Ethnigrwydd	Troseddau rhywiol (Dynion)	Troseddau rhywiol (Menywod)	Troseddau corfforol (Dynion)	Troseddau corfforol (Menywod)	Lladdiadau (Dynion)	Lladdiadau (Menywod)
Asiaidd	57.9%	n/a	60.9%	75% (8 achos)	1 (100%)	n/a
Du	60.5%	1 aflwyddiannus	59.4%	63.6% (11 achos)	1 (100%)	n/a
Tarddiad Ethnig Cymysg	44.4%	n/a	58.3%	80% (5 achos)	1 (50%)	1 (50%)
Gwyn i Gyd	69.4%	73.3% (niferoedd isel)	75.6%	73.8%	6 (100%)	n/a
Prydeinig Gwyn	69.4%	71.4% (niferoedd isel)	75.8%	75.1%	6 (100%)	n/a

5.12.9 Prin oedd y data a gofnodwyd ar ddadansoddiad ethnigrwydd dioddefwyr mewn achosion cam-drin plant ar gyfer Ebrill – Medi 2006, gyda dim ond 10 y cant o achosion yn cael eu cofnodi.[25]

5.13 Data am y fasnach mewn pobl a throseddau puteindra

5.13.1 Ar hyn o bryd, yr unig fan y ceir data am y fasnach mewn pobl a phuteindra yw o'r gronfa ddata am "droseddau", sydd ar wahân ac yn wahanol i'r gronfa ddata am "ddiffynyddion" lle cofnodir proffil diffynyddion a dioddefwyr yn ogystal â chanlyniadau. Felly ni ellir dadansoddi yn ôl rhyw nac ethnigrwydd ar hyn o bryd o fewn y CPS. Cafwyd y data cyfyngedig isod gan y Swyddfa Gartref.

5.13.2 Ar 15 Ionawr 2007, cafwyd ymateb gan yr Ysgrifennydd Cartref i gwestiwn am y cyswllt rhwng trais yn y cartref a'r fasnach mewn menywod. Dywedodd bod Ymgyrch Pentameter – sef ymgyrch orfodi genedlaethol am dri mis – wedi nodi 87 dioddefwr posib yn y fasnach mewn pobl ar gyfer camfanteisio rhywiol, a 12 ohonynt dan oed neu'n blant (Hansard). Dywedodd Margaret Moran AS yr amcangyfrifir yn yr Wcráin fod 50 y cant o bobl sy'n cael eu masnachu wedi dioddef yn sgil trais yn y cartref.

5.13.3 Mae data'r Swyddfa Gartref yn cadarnhau bod 182 o ddiffynyddion wedi'u dedfrydu am droseddau'n gysylltiedig â'r fasnach mewn pobl yn 2005, ac o'u plith roedd 12 yn gysylltiedig â throseddau rhywiol. Fodd bynnag, nid oes dadansoddiad yn ôl rhyw y person yn y data.

5.13.4 Rhwng Mawrth 2003 a Mehefin 2007, cyfeiriwyd 674 o fenywod at Brosiect POPPY oherwydd iddynt gael eu masnachu ar gyfer camfanteisio rhywiol, neu iddynt honni hynny. Rhoddwyd llety a chefnogaeth i 145 o'r menywod hyn, a chafodd 74 gymorth drwy gyfrwng gwasanaeth allgymorth.

[25] Gellir casglu data am ddioddefwyr ar y System Rheoli Achosion (CMS) COMPASS neu ar y System Rheoli Tystion (WMS). Ar hyn o bryd mae lefel y cofnodi yn isel. Cesglir gwybodaeth ar gyfer WMS yn bennaf o achosion ble nodwyd ple dieuog a ble mai'r Swyddog Gofal Tystion yw'r unig bwynt cyswllt ar gyfer y dioddefwr, felly mae yna beth data am drais yn y cartref na fydd yn cael ei gasglu. Mae'r tîm trais yn y cartref yn gweithio gyda'r Uned Rhoi Gofal i Ddioddefwyr a Thystion i fynd i'r afael â hyn a datblygu systemau a fydd o gymorth i wella casglu data ac ansawdd y data ar WMS.

5.13.5 Mae ystadegau'r Swyddfa Gartref o 2005 yn dangos i 269 o ddynion (ac un fenyw) gael rhybuddiad am blagio pen ffordd *(kerb crawling)*; rhoddwyd rhybuddiad i 42 o ddynion am lithio *(soliciting)* menywod a 23 o ddynion am lithio dynion. Ni roddwyd rhybuddiad i unrhyw fenyw. Euogfarnwyd 629 dyn a 6 menyw am blagio pen ffordd, ac euogfarnwyd 36 dyn am lithio (dau ar gyfer dynion). Yn 2006, cofnodwyd 332 trosedd o blagio pen ffordd.[26]

5.14 Data am fenywod sy'n droseddwyr

5.14.1 Nodwyd yn *Adroddiad Corston 2007* fod menywod â hanes o drais a chamdriniaeth yn cael eu gorgynrychioli yn y system cyfiawnder troseddol ac y gellir eu disgrifio fel dioddefwyr yn ogystal â throseddwyr. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod problemau gyda pherthnasau yn nodwedd amlwg ar lwybr y menywod at droseddu a bod llawer o fenywod yn y carchar wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, yn emosiynol ac yn gorfforol.

5.14.2 Nodwyd yn *Adroddiad Corston* bod un fenyw o bob tair yn y carchar wedi dioddef cael eu cam-drin yn rhywiol, o gymharu ag un dyn mewn deg.

5.14.3 Mewn arolwg a gynhaliwyd yng Ngharchardai Ei Mawrhydi, datgelwyd bod bron i hanner y menywod a holwyd wedi cael profiad o drais yn y cartref, a thraean ohonynt wedi wynebu ymosodiad rhywiol.[27] Nodwyd hefyd fod y ffigur hwn yn debyg i arolwg a gynhaliwyd yng Ngharchar Holloway, ble dadlennodd 36 y cant o fenywod iddynt gael profiad o gam-drin rhywiol yn ystod eu plentyndod a 45 y cant eu bod wedi profi camdriniaeth gorfforol.

5.15 Data am briodas dan orfod, yr hyn a elwir yn droseddau anrhydedd ac FGM

5.15.1 Ym Mehefin 2007, sefydlwyd cynlluniau peilot gan y CPS mewn pedwar o Ranbarthau'r CPS i amlygu achosion o briodas dan orfod a'r hyn a elwir yn droseddau anrhydedd.[28] Mae'r cynlluniau peilot yn ceisio gwella erlyniadau a chefnogaeth i ddioddefwyr a bydd o gymorth i fesur y dynameg rhyw yn y troseddau hyn. Dengys data cenedlaethol, yn unol â'r holl achosion o gam-drin yn y cartref, mai dynion yw mwyafrif y diffynyddion a'r dioddefwyr yn fenywod. Ni chafodd unrhyw achos o FGM ei erlyn hyd yn hyn.

5.16 Data am droseddau yn erbyn pobl hŷn

5.16.1 Menywod yw mwyafrif y bobl hŷn ac felly mae rhagor o fenywod yn debygol o fod yn ddioddefwyr troseddau yn erbyn pobl hŷn. Mae'r ymchwil yn dangos y gall fod gorgyffwrdd gyda thrais yn y cartref – er enghraifft gallai fod yn drais yn y cartref sydd wedi parhau ers degawdau neu'n gam-drin pobl hŷn gan eu gofalwyr a allai gynnwys partneriaid neu aelodau o'u teulu. Gan fod y polisi wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, nid oes data'r CPS ar gael hyd yn hyn.

5.17 Data am gyhoeddiadau anllad ac aflonyddu rhywiol

5.17.1 Ni chafwyd data hyd yn hyn mewn perthynas â'r materion hyn.

---

26 Nid oedd ystadegau 2006 a roddwyd i'r CPS gan y Swyddfa Gartref wedi'u dadansoddi yn ôl rhyw y person. Defnyddir ffigurau 2005 i ddangos dadansoddiad o'r troseddau hyn yn ôl rhyw.

27 Uned Allgáu Cymdeithasol (2002) *Reducing re-offending by ex-prisoners*, Llundain: Uned Allgáu Cymdeithasol.

28 Sir Gaerhirfryn, Llundain, Gorllewin Canolbarth Lloegr a Gorllewin Swydd Efrog.

6 Pwyntiau allweddol wrth ddadansoddi data

6.1 *Trais yn y cartref*

Dyma'r pwyntiau allweddol o'r dadansoddiad o ddata trais yn y cartref:

- dynion oedd 95 y cant o'r diffynyddion mewn achosion trais yn y cartref;
- mae'r sefyllfa mewn perthynas ag ethnigrwydd yn fwy cymhleth. Mae data'r Swyddfa Gartref yn dangos bod pobl Dduon ac Asiaidd sydd dan amheuaeth ar gyfer pob trosedd yn cael eu harestio fwy na'u cynrychiolaeth yn y boblogaeth yn gyffredinol. Yn yr un modd roedd diffynyddion Du, Asiaidd ac Ethnigrwydd Cymysg yn cael eu cynrychioli mewn cyfrannau uwch o'r rhai a gyhuddwyd yn 2006-07 a'r achosion hynny a gwblhawyd yn Ebrill – Medi 2006, o gymharu â'r boblogaeth;
- mae data cyhuddo 2006-07 y CPS yn dangos bod nifer gyfatebol yn llai o bobl Dduon (57.5 y cant) ac Asiaidd (55 y cant) dan amheuaeth wedi'u cyhuddo o gymharu â phobl Wyn dan amheuaeth (59.6 y cant). Yr oedd canran uwch o ganlyniadau llwyddiannus hefyd gyda diffynyddion Gwyn nag ar gyfer diffynyddion Du, Asiaidd neu Ethnigrwydd Cymysg. Fodd bynnag, dylid cymryd gofal wrth drin pob data am ethnigrwydd; ac
- mae cofnod gwael o ryw dioddefwyr,[29] ond, ble cafodd ei gofnodi, roedd ychydig dan 90 y cant o'r dioddefwyr yn fenywod.

6.2 *Treisio a throseddau rhywiol*

Dyma'r pwyntiau allweddol o'r dadansoddiad o ddata treisio a throseddau rhywiol:

- dynion oedd 99 y cant o'r diffynyddion mewn achosion treisio a 96 y cant mewn achosion troseddau rhywiol;
- ar gyfer Ebrill-Mehefin 2006, erlyniwyd 53 y cant o ddynion yn llwyddiannus am dreisio, o gymharu â 67 y cant ar gyfer troseddau rhywiol eraill;
- prin yw'r menywod a gafodd eu herlyn am dreisio; o blith y rhai a erlynwyd am droseddau rhywiol eraill, plediodd 73 y cant yn euog;
- ni chofnodwyd ethnigrwydd ar gyfer 12 y cant o achosion. Ble cafodd ei gofnodi, yr oedd cyfran is o droseddwyr Gwyn nag yn y boblogaeth yn gyffredinol, a chyfran uwch o droseddwyr Du, Asiaidd ac Ethnigrwydd Cymysg. Yn debyg i'r data am drais yn y cartref, yr oedd cyfran uwch o ganlyniadau llwyddiannus gyda diffynyddion Gwyn hefyd nag ar gyfer diffynyddion Du, Asiaidd neu Ethnigrwydd Cymysg. Fodd bynnag, dylid cymryd gofal wrth drin pob data am ethnigrwydd; ac
- mae cofnod gwael o ryw dioddefwyr, ond, ble cafodd ei gofnodi, roedd ychydig dan 90 y cant o'r dioddefwyr yn fenywod. [30]

6.3 *Troseddau cam-drin plant*

Dyma'r pwyntiau allweddol o'r dadansoddiad o ddata troseddau cam-drin plant:

- troseddau rhywiol: dynion oedd 98 y cant o'r diffynyddion yn y mathau hyn o achosion;
- bu 10 lladdiad: roedd wyth o'r 10 diffynnydd yn ddynion ac fe erlynwyd saith yn llwyddiannus;
- roedd dynion yn gyfrifol am 75 y cant o'r achosion troseddau corfforol: nid oedd unrhyw wahaniaethau rhwng y rhywiau o ran canlyniadau'r rhai a erlynwyd;
- ni chofnodwyd ethnigrwydd mewn 9 y cant o achosion. Ble cafodd ei gofnodi, yr oedd cyfran uwch o ddiffynyddion Gwyn a chyfraddau is o ddiffynyddion Du ac Asiaidd o gymharu â'r boblogaeth ar gyfer achosion cam-drin plant yn rhywiol. Roedd patrymau canlyniadau llwyddiannus yn debyg i'r

[29] Gweler troednodyn 25
[30] Gweler troednodyn 25

rhai ar gyfer achosion trais yn y cartref a threisio. Fodd bynnag, dylid cymryd gofal wrth drin pob data am ethnigrwydd; ac
- mae cofnod gwael o ryw dioddefwyr, ond, ble cafodd ei gofnodi, roedd 67 y cant o'r dioddefwyr yn ferched.[31]

6.4 *Materion cydraddoldeb yn gyffredinol*

Mae'r EDIA hwn wedi nodi'r materion cyffredinol canlynol ynghylch cydraddoldeb:

- mae pob trosedd trais yn erbyn menywod yn cael ei gyflawni'n bennaf gan ddynion yn erbyn menywod;
- mae angen monitro proffil cydraddoldeb dioddefwyr yn well;
- mae angen rhagor o ymchwil a gwaith ar y berthynas rhwng ethnigrwydd ac mynd i'r afael ag anghyfartaledd;
- bydd angen mynd i'r afael â gwahaniaethau mewn monitro cadarn. Er enghraifft, yn rhai o'r troseddau trais yn erbyn menywod (e.e. trais yn y cartref) y mae systemau amlygu a monitro mwy cadarn wedi'u sefydlu; ond gydag eraill fel cam-drin plant mae angen diffiniadau a systemau amlygu clir i sicrhau amlygu cadarn a monitro. Gyda rhai o'r troseddau trais yn erbyn menywod, megis puteindra a'r fasnach mewn pobl, nid oes unrhyw systemau i fonitro canlyniadau o gwbl;
- hyd yn hyn, y mae data'r CPS wedi bod ar gael yn ôl rhyw y person ac ethnigrwydd yn unig. Fodd bynnag, er 2007 fe fu modd monitro crefydd neu gred a pherthnasau o'r un rhyw hefyd mewn achosion trais yn y cartref. Bydd oedran yn cael ei fonitro o fis Ebrill 2008 ac edrychir ar fonitro rhywioldeb.
- yn y dyfodol mae angen ystyried asesu materion trais yn erbyn menywod mewn perthynas â chrefydd neu gred, anabledd, rhywioldeb ac oedran.

7 Asesiad cyffredinol o effaith Strategaeth y CPS ar Drais yn erbyn Menywod

7.1 Rydym wedi asesu bod y strategaeth hon yn cael effaith anghyfartal ar ddynion fel y rhai dan amheuaeth ac fel diffynyddion. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth o'r data yn dadlennu bod mwyafrif y trais yn cael ei gyflawni gan ddynion yn erbyn menywod. Ar y sail honno, mae'r strategaeth yn ffordd o fodloni nod cyfreithlon.

7.2 Yn sgil y ffaith fod dynion Duon a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu gorgynrychioli o fewn y set data, mae'r strategaeth yn debygol o gael effaith anghyfartal arnynt, fel is-set o'r holl ddynion. Fel y nodir ym mharagraff 6.4, mae angen rhagor o ymchwil mewn perthynas ag ethnigrwydd.

7.3 Mae'r gwaith ar linynnau anabledd, crefydd neu gred, oedran a rhywioldeb yn dal i ddatblygu. Ar hyn o bryd, mae data'r CPS ar y llinynnau hyn yn gyfyngedig iawn. Bydd angen casglu rhagor o ddata ac o bosib ymchwil mewn perthynas â'r holl linynnau cydraddoldeb hyn.

8 Gweithredu pellach

8.1 Bydd y cynlluniau gweithredu arfaethedig ar drais yn erbyn menywod yn cael eu monitro er mwyn rhoi sylw i'r materion a nodir yn 6.4.

8.2 Bydd y materion cydraddoldeb ac amrywiaeth a nodir yn yr EDIA yn cael eu monitro'n rheolaidd a rhoddir sylw iddynt trwy gyfrwng Grŵp Sicrwydd y Prosiect Trais yn erbyn Menywod. Bydd Grŵp Sicrwydd y Prosiect yn cynnwys ac ymgynghori ag ystod eang o gymunedau amrywiol, yn benodol yn

[31] Gweler troednodyn 25

mynd i'r afael â materion mewn perthynas â rhyw, ethnigrwydd, crefydd neu gred, anabledd, rhywioldeb ac oedran.

8.3 Bydd cynlluniau gweithredu Trais yn erbyn Menywod yn rhoi sylw i'r gwasanaethau sydd eu hangen gan amrywiaeth o gymunedau er mwyn sicrhau bod anghenion pawb yn cael eu bodloni.

8.4 Bydd y Tîm Trais yn erbyn Menywod yn ystyried systemau i fonitro'r gefnogaeth a roddir i amryfal ddioddefwyr, eu diogelwch a'u bodlonrwydd (gweler y cynllun gweithredu cenedlaethol).

Fe gewch chi ragor o gopïau o'r daflen hon gan:

Cangen Cyfathrebu y CPS
50 Ludgate Hill
Llundain EC4M 7EX

Ffôn 020 7796 8442
Ffacs 020 7796 8030
E-bost publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton
Ffôn 01204 532121